

Dewisiadau Amgen yn Lle Arholiadau a Phapurau Traddodiadol

Yng ngoleuni'r datblygiadau'n gysylltiedig â Covid-19, mae'r Brifysgol wedi gofyn i staff ystyried asesiadau amgen yn lle asesiadau nad oes modd eu gwneud ar-lein, cael cymeradwyaeth ar eu cyfer gan yr arholwr allanol ac i'r asesiadau fod yn eu lle ar gyfer y cyfnod arholiadau.

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol ei bod yn hanfodol cynnal rhai mathau o asesiadau'n bersonol a gall drafod y dull ar gyfer y rhain fesul achos unigol.

Er mwyn helpu i ddatblygu dewisiadau amgen yn lle arholiadau, mae nifer o ganllawiau defnyddiol wedi'u datblygu ac mae dolen iddynt isod. Hefyd mae enghreifftiau o arfer da yn y Brifysgol ar hyn o bryd a cheir braslun o'r rhain isod.

Mae'r cwestiynau canlynol yn ddefnyddiol wrth adfyfrio ar yr asesiadau ar gyfer y modwl a beth sydd angen ei gynnwys yn yr asesiad amgen.

Wrth ail-ddatblygu asesiadau, mae'n ddefnyddiol meddwl am beth yn union roedd yr asesiad yn ei asesu yn nhermau'r deilliannau dysgu

Bydd y cwestiynau isod yn eich helpu i ganolbwyntio ar ba sgiliau a gwybodaeth yn union y dylai'ch asesiad eu cynnwys.

- Ydych chi'n dymuno asesu a ydy myfyrwyr wedi caffael gwybodaeth am gynnwys penodol, neu asesu eu gallu i gymhwyso'r wybodaeth honno i sefyllfaoedd newydd (neu'r ddau)?
- Ydych chi'n dymuno asesu cynnyrch y mae myfyrwyr yn ei gynhyrchu, neu'r broses yr aethant drwyddi i'w gynhyrchu, neu'r ddau?
- Ydych chi'n dymuno asesu unrhyw rai o'r canlynol?
 - gallu i ysgrifennu
 - sgiliau siarad
 - creadigrwydd
 - defnydd o dechnoleg gwybodaeth
 - Ydy elfen weledol yn yr asesiad yn angenrheidiol neu'n ddymunol?
 - Ydy'r gallu i fyfyrwyr weithio mewn grŵp yn elfen bwysig o'r asesiad?
 - Ydy hi'n bwysig bod yr asesiad i'w gyflawni o fewn amser penodol?
 - Yn ddibynnol ar yr amgylchiadau (amcanion dysgu, maint a'r math o ddsbarth), byddai'n syniad da cael trafodaeth gyda'r myfyrwyr am yr asesiad mwyaf priodol. Mae hyn yn rhoi iddynt ymdeimlad o rymuso, ond hefyd mae'n rhoi ymdeimlad i ni o sut maen nhw'n cysyniadu eu prosiect.

Enghreifftiau o Arfer Ar-lein Cyfredol ar gyfer Arholiadau a Chyflwyniadau yn y Brifysgol:

Arholiadau Ar-lein

- Oes angen i'r arholiad gael ei amseru? Os oes, am ba mor hir?
- Ydy'r arholiad yn gallu bod yn arholiad llyfr agored? Os na all, a oes cyfyngiadau ar ba adnoddau a ganiateir?
 - Os byddwch yn symud i arholiad llyfr agored, byddai'n werth ystyried defnyddio banc cwestiynau yn lle 'prawf' penodol oherwydd byddai hynny'n gweithio yn erbyn cyd-dwylo, ac ati.
- Ydy cyfleuster y prawf yn y Rhith-amgylchedd Dysgu yn darparu'r nodweddion sydd eu hangen arnoch?
- Ydy dogfen Word a lanlwythir i Turnitin yn briodol?
- A fyddai symud i fath o arholiad i'w wneud gartref yn gweithio?
 - A fyddai hyn yn well na symud o arholiad nas gwelir ymlaen llaw i arholiad llyfr agored, oherwydd mae hyn yn gallu gweithio'n well gyda'r mathau o gwestiynau. Byddai arholiad i'w wneud gartref gyda 3-4 cwestiwn sy'n newid o wybodaeth i drafodaeth feirniadol yn caniatáu iddyn nhw gymhwyso'r materion y gellid eu cwmpasu yn yr arholiad.
- Beth sydd ei angen arnoch i wirio pwy yw'r myfyriwr?
- Beth sy'n gallu rhwystro camymddwyn academiaidd yn yr arholiad amgen?

Cyflwyniadau Unigol:

- Oes angen i'r cyflwyniad fod i grŵp neu i unigolyn?
- A fyddai modd i'r cyflwyniad cael ei recordio a'i lanlwytho neu os angen iddo fod yn fyw?
- A fyddai cynhadledd ar-lein yn briodol?

Gwaith Grŵp

- Oes angen i'r grŵp gwrdd â'i gilydd?
 - Ystyriwch ddefnyddio fforymau Moodle, Microsoft Teams, Skype for Business neu unrhyw blatfform ar-lein arall y gallai'r Sefydliad Partner fod yn ei ddefnyddio.
- Beth yw cynnyrch terfynol y gwaith grŵp?
- Os cyflwyniad ydyw, oes modd ei gyflwyno drwy blatfform fideo-cynadledda?
- Ar gyfer rhai pethau, gallech chi ystyried mynd am fath gwahanol o asesiad ar yr un pwnc, er enghraifft ar gyfer cyflwyniadau neu brosiectau grŵp. Felly, os oedd yn gyflwyniad grŵp, yn ei le gofynnwch iddyn nhw greu cyflwyniad mawr ar Prezi gydag elfennau ar fideo.

Symud o arholiadau ysgrifenedig i arholiadau llafar drwy Skype

Adnoddau Eraill:

https://www.queensu.ca/teachingandlearning/modules/assessments/31_s4_01_intro_section.html

<https://www.jisc.ac.uk/guides/making-assessments-accessible>

https://www.wvu.edu/teachinghandbook/course_design/assessment_strategies.shtml